# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 17EG MAWRTH, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Jones**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 9 Mawrth 2026)

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| Gwilym Jones | Porthmadog Consultative Habour Committee |
| John Pughe | |
| Anne Lloyd-Jones | |
| Dewi Owen | |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Josh Cooper | RNLI Aberdyfi |
| David Williams | Aelod o Aberdyfi & Improvements Committee |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Ian Baylis | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |

**Sylwedyddion:**

Cyng. Medwyn Hughes

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. COFNODION — 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025 fel rhai cywir.

## 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR — 9 - 16

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 5. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar y 17 Tachwedd 2026.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI, 14 HYDREF 2025

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr Gwynedd:** Y Cynghorwyr Robert Dewi Owen & Anne Lloyd Jones.

**Aelodau Cyfetholedig:** Freddie Collier (RNLI Aberdyfi), David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Desmond George (Aelod o Glwb Hwylio Dyfi), Al Crisp (Outward Bound Trust Wales), Robert Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi)

**Sylwedyddion:** Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Cynghorydd Gwilym Jones (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

**Swyddogion yn bresennol:** Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), William Arthur Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi), a Courtney Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD Etholwyd y Cynghorydd Robert Dewi Owen fel Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar gyfer y flwyddyn 2025/26.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD Etholwyd y Cynghorydd Anne Lloyd-Jones fel Is-gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar gyfer y flwyddyn 2025/26.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dan Cartwright (Uwch Swyddog Harbyrau) a Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymunedau).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol. Tywyswyd yr aelodau trwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Wrth gyfeirio at y data perfformiad, nodwyd bod cynnydd wedi bod yn y defnydd o'r harbyrau ers cyfnod COVID, sydd yn galonogol i'r sir. Cadarnhawyd bod cynnydd o 8% ar draws harbyrau'r sir, wrth i'r nifer o angorfeydd godi o 250 i 270 yn bresennol. Nodwyd bod cynnydd wedi bod yn y nifer angorfeydd wrth i'r harbyrau groesawu cwsmeriaid newydd ar draws Gwynedd, yn enwedig Harbwr Aberdyfi, gyda chynnydd o 4 cwsmer. Nodwyd bod y sir yn parhau i weld cwsmeriaid yn symud o un harbwr i'r llall o fewn y sir a thu hwnt.

Nodwyd bod newid wedi bod yn y system ar lein ar gyfer cofrestru angorfeydd a bod hyn wedi lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol. Nodwyd bod cwsmeriaid bellach yn gallu gwneud taliadau ar-lein am eu hangorfeydd..

Nodwyd bod cynnydd o 10% yn nifer cychod pŵer a beiciau dŵr a gofrestrwyd gyda'r Cyngor yn y tymor i gymharu â'r llynedd, yn codi o 2,141, i 2,362. Ymhelaethwyd bod hyn yn ychwanegu at gyllideb y traethau ac nid cyllideb yr harbwr (nodwyd bod yr incwm yn cael ei dalu ar-lein) a bod hyn yn rhan sylweddol o'r gyllideb forwrol. Nodwyd bod llai o gwynion wedi eu derbyn am feiciau dŵr, i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu bod y drefn yn gweithio'n effeithiol. Canmolwyd y staff sydd yn rhagweithiol yn eu gwaith wrth ddelio a chwsmeriaid a monitro'r dyfroedd ac yn gweithredu lle mae'r angen er mwyn sicrhau bod pobl yn cydymffurfio a'r rheolau.

Wrth gyfeirio at foddhad cwsmeriaid yr harbyrau, cadarnhawyd bod adborth cadarnhaol yr harbyrau wedi cynyddu ers 2023, gyda 63% bellach wedi nodi safon ragorol i'r harbwr, i gymharu â 40% yn 2023/24. Nodwyd bod yr adborth yn cael ei fonitro bob mis i fonitro boddhad defnyddwyr. Ymhelaethwyd bod yr adran yn dadansoddi'r data i adnabod tueddiadau a meysydd gweithredu. Eglurwyd bod modd i gwsmeriaid a defnyddwyr ddarparu adborth trwy ffurf sganio cod QR (sydd wedi ei leoli ar hyd yr harbwr) sy'n eu cyfeirio at holiadur ar lein er mwyn gwerthuso profiadau defnyddwyr yr harbyrau. Nodwyd eu bod wedi derbyn mwy o adborth am y traethau yng Ngwynedd o'i gymharu â'r harbyrau. Cydnabuwyd bod nifer defnyddwyr y traethau wedi cynyddu, ac felly bod yr heriau o reoli'r traethau wedi cynyddu, gyda chynnydd mewn sbwriel, preswylwyr yn parcio dros nos a defnydd beiciau dŵr. Er hyn, cadarnhawyd bod yr adran wedi derbyn ymateb cadarnhaol iawn o'r defnydd o'yr harbwr sy'n adlewyrchu'r rheolaeth effeithiol. Mynegwyd eu bod wedi derbyn sylwadau calonogol am y cyfleusterau a'r staff wrth gyfeirio at y sylwadau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ymatebion sydd yn cyfleu bod staff yr harbwr yn gyfeillgar, croesawgar ac yn wybodus iawn. Canmolwyd staff yr harbwr a'u parodrwydd i fynd tu hwnt i ofynion ac oriau gwaith i gefnogi a helpu cwsmeriaid.

Cyfeiriwyd at yr adborth negyddol a gafwyd am yr harbwr, gan nodi eu bod wedi derbyn beirniadaeth am sefyllfa carthu'r harbwr. Nodwyd bod rhai wedi cwyno am ymddygiad defnyddwyr beiciau dŵr ac yn galw am fwy o reolaethau. Amlygwyd bod rhai wedi cwyno bod eu hangorfa wedi ei symud, ond eglurwyd bod hyn yn digwydd oherwydd materion tywydd tu hwnt i reolaeth staff yr harbwr. Mynegwyd bod rhai wedi cwyno am y 'caban' dros dro yn yr harbwr gan nodi nad yw'n addas ar gyfer yr harbwr. Nodwyd bod rhai yn cwyno ei fod yn hagru'r olygfa yn Aberdyfi. Eglurwyd bod yr adran yn cymryd y sylwadau yma o ddifri ac yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd wrth weithredu pan fo'n bosib.. Pwysleisiwyd blaenoriaeth y staff i gyfarch anghenion defnyddwyr yr harbwr a'u nod i fodloni cwsmeriaid hyd eu gorau.

Cyfeiriwyd at y Cod Diogelwch Morol. Nodwyd bod y cod yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Eglurwyd bod yr harbyrau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwr allanol i sicrhau cydymffurfiaeth. Cadarnhawyd penodiad Mr Owen Morgan, Rheolwr Harbwr ar gyfer Cyngor Ceredigion, fel y 'Person Dynodedig' newydd ar gyfer y gwasanaeth. Amlygwyd y byddai yn cynnal archwiliadau o'r harbyrau yn fuan. Croesawyd y cydweithrediad efo Mr Morgan. Rhagwelwyd y byddai'r adran mewn sefyllfa i adrodd ar welliannau ac argymhellion Mr Owen Morgan erbyn dyddiad y pwyllgor nesaf ym Mawrth 2026. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd byddai'r Awdit sydd yn cael ei gynnal yn cynnwys holl faterion rheolaeth yr harbwr. Tybiwyd y byddent yn trafod yr heriau yn yr harbwr, megis y tywod a mynediad a hygyrchedd yr harbwr.

Manylwyd ar hyfforddiant staff fel rhan o'r Cod Diogelwch Morol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygiad personol staff a chadarnhawyd bod yr adran yn buddsoddi llawer o arian mewn hyfforddi a sicrhau bod y staff yn gymwys. Nodwyd bod aelod o staff wedi cwblhau diploma Harbwr Feistr yn ddiweddar, sydd yn galonogol iawn. Ymhelaethwyd bod

yr adran yn cynnal trafodaethau yn aml gyda staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael y mwyaf allan o'r cyfleon sy'n ariannol bosib.

Rhannwyd gwybodaeth am yr heriau y mae swyddogion yn eu hwynebu oherwydd natur eu gwaith, gan nodi bod y swyddogion ar adegau yn profi ymddygiad difrifol, bygythiol ac ymosodol. Er mwyn sicrhau diogelwch staff a'r cyhoedd, cadarnhawyd bod swyddogion bellach yn gorfod gwisgo camerâu ar eu cyrff i recordio unrhyw ddigwyddiadau a rhoi gwarchodaeth iddynt. Cyfeiriwyd at y buddsoddiad sydd i ddod mewn gosod camerâu cylch cyfyng (CCTV) yn ardal yr harbwr Aberdyfi er mwyn gwella rheolaeth yr harbwr a monitro achosion treisgar. Soniodd aelod bod 2 achos treisgar wedi bod yn ddiweddar wedi cyfeirio at staff RNLI a chydnabuwyd bydd camerâu cylch cyfyng yn gwella diogelwch yr ardal. Adroddwyd nad oedd unrhyw ddigwyddiadau morwrol neu ddamweiniau wedi eu hadrodd eleni yn Aberdyfi.

Gan gyfeirio at ddigwyddiad a ddigwyddodd 2 flynedd yn ôl, holodd aelod os yw'r mater yn parhau i ddatblygu trwy systemau'r cwrt. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod yr adran yn parhau i gydweithio a'r heddlu lleol ar y mater a'u bod yn disgwyl penderfyniad gan y CPS os yw'r achos yn mynd ymlaen i'r llys. Hyderwyd bydd y mater yn mynd i'r llys maes o law. Mynegwyd siom fod yr achos wedi cymryd gymaint o amser i fynd i'r llys a mynegwyd awydd i roi pwysau ar yr awdurdodau i ddatblygu'r mater gan obeithio bydd erlyniad yn fuan.

Cyfeiriwyd at yr Awdurdod Goleudy Lleol sydd yn gyfrifol am sicrhau mordwyo diogel i'r holl forwyr sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd. Cadarnhawyd bod yr adran yn cynnal arolygon rheolaidd o sianel yr harbwr i sicrhau bod yr holl Gymhorthion Mordwyo Lleol wedi'u lleoli'n gywir ac yn gweithio'n iawn. Cadarnhawyd bod yr adroddiad diweddaraf yn cyfleu bod 95.47% o Gymhorthion Mordwyo Cyngor Gwynedd ar gael, ac yn cael eu ystyried mewn 'Cyflwr Da'. Diolchwyd i'r staff am eu gwaith yn cynnal a chadw'r cymhorthion. .

Rhoddwyd trosolwg o'r adnoddau a Chyllideb. Cyfeiriwyd at wariant y cyllidebau isod gan nodi'r rhesymeg briodol. Rhagdybiwyd cyfanswm orwariant o tua £500 yn Harbwr Aberdyfi, oherwydd y cyfanswm incwm ychwanegol sydd wedi dod i mewn yn sgil y cynnydd yng nghwsmeriaid ayyb. Proffwydwyd y byddent £14,000 uwchlaw'r targed incwm, sydd yn galonogol iawn. Mynegwyd awydd gan aelodau i weld dyraniad o incwm yr harbwr yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor a chadarnhawyd y byddai'r swyddogion yn ceisio paratoi crynodeb erbyn y cyfarfod nesaf.

- **Gweithwyr** - Rhagdybiwyd gorwariant o £1,693 yng nghyllidebau cyflogau a chostau swyddogaethau.
- **Eiddo** - Proffwydwyd tanwariant o £1,246 yn y gyllideb hon, sy'n gyfrifol am gynnal tiroedd, casglu sbwriel ac ati. Eglurwyd bod tanwariant yn y gyllideb gan nad oes costau sylweddol hyd yma wedi codi. .
- **Trafnidiaeth** - Ystyriwyd y bydd gorwariant o £46 yn y gyllideb hon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Eglurwyd nad yw'r gyllideb hon yn cynnwys costau rhedeg a chynnal a chadw cerbyd y gwasanaeth, ond ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tanwydd y cwch patrôl a chostau teithio staff.
- **Gwasanaethau a Chyflenwadau** - Esboniwyd fod y gyllideb hon yn llawer rhy isel sy'n achosi gorwariant blwyddyn ar ôl blwyddyn. Eglurwyd ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llu o nwyddau megis offer, arwyddion, goleuadau, cymhorthion mordwyo a thrydan. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn cael ei gynnal i gynyddu'r gyllideb a gobeithiwyd bydd yn cael ei nodi yn uwch i'r dyfodol gan achosi llai o orwariant. Rhagwelwyd byddent yn gwario tua £11,000 yn y pennawd yma. Cyfeiriwyd at y gwariant ychwanegol sydd wedi codi yn sgil Storm Amy yn ddiweddar, sydd wedi achosi i nifer fawr o gyrff anifeiliaid olchi i fyny ar yr arfordir, a chostau gwaredu. . ..

Esboniwyd bod gan Aberdyfi lawer o achosion yma, oherwydd ei leoliad ar yr arfordir a'r dalgylch amaethyddol.

- **Gwariant Un Tro – Ariannu o Gronfeydd yr Adran** – Eglurwyd nad oes dim gwariant wedi bod o'r gronfa yma eleni.

  Cadarnhawyd bod cynlluniau drafft ar gyfer Swyddfa'r Harbwr newydd ar y cei wedi cael eu paratoi a chafwyd mewnbwn gan y Gwasanaeth Morwrol i sicrhau bod yr holl anghenion gweithredol yn cael eu diwallu. Eglurwyd bod y cynlluniau arfaethedig yn cael eu trafod gydag adran gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd a bod caban dros dro mewn lle. Derbyniwyd bod nifer o gwynion wedi eu codi gan drigolion lleol am y caban dros dro, ond cydnabuwyd bod y staff angen swyddfa dros dro er mwyn cyflawni eu gwaith. Gobeithiwyd y bydd y dyluniadau yn barod i rannu efo aelodau'r pwyllgor erbyn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor a bydd y gwaith yn datblygu yn fuan.

  Amlygwyd fod bwi, cadwyn, bloc a golau newydd i'r sianel fordwyo wedi ei brynu ar gost o £7000. Nodwyd bod yr adran gyllid wedi sicrhau i adnewyddu ac ailwampio rhannau o strwythur pren y lanfa a bod cynlluniau yn cael eu datblygu i sicrhau diogelwch, gan fod y prosiect yn cael ei gategoreiddio fel un 'risg uchel' oherwydd y lleoliad.

  Fel rhan o'r ymgyrch gwaredu tywod, amlygwyd bod £2,000 wedi'i fuddsoddi i gontractwyr ei dynnu o'r llithrfa. Esboniwyd  bod y broblem tywod wedi dychwelyd oherwydd gwyntoedd cryf canol mis Gorffennaf, ac felly nodwyd ei fod yn parhau i fod yn broblem. Mynegwyd rhwystredigaeth tuag at y problemau sydd yn codi oherwydd y tywod, gan nodi bod y bad achub yn dioddef problemau yn sgil y tywod. Adnabuwyd byddai cynnal trafodaethau ar sut i ddatrys y broblem tywod yn ddefnyddiol a sicrhawyd bod y Cyngor yn agored i drafod a rhanddeiliaid eraill i ddod o hyd i ddatrysiad hir dymor.

  Cyfeiriwyd at y busnes newydd sy'n gweithredu ar y cei yn Aberdyfi. Adroddwyd bod y sefyllfa yn sefydlog ar hyn o'r bryn ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn sgil y gwerthiant alcohol newydd ar y lanfa.

  Adroddwyd bod y nifer o slefrod môr 'Portugese Man O' War' wedi golchi i fyny ar hyd arfordir Gwynedd yn ddiweddar, gyda'r tywydd a'r gwyntoedd cryfion.. Nodwyd bod rhain yn cael eu monitro a bod y Cyngor wedi cynghori'r cyhoedd i gadw draw.

  Mynegwyd awydd i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â llygredd dŵr yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor. Nodwyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru sydd gyda'r wybodaeth yma ac yn gyfrifol am samplo'r dŵr, a bod gwefan y Cyngor yn cyfeirio ymholiadau at wefan Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn darparu gwybodaeth ar lefelau llygredd y dyfroedd ar draws y sir.

  Rhoddwyd diweddariad ar faterion gweithredol yr harbwr Aberdyfi, gan yr Harbwrfeistr. Nodwyd ei fod wedi bod yn dymor prysur dros yr haf a bod y tywydd wedi bod yn heriol yn ddiweddar gyda'r gwyntoedd cryfion. Ymfalchïwyd bod staff wedi ymrwymo i sicrhau fod yr angorfeydd mewn cyflwr priodol yn yr harbwr, er gwaethaf heriau natur. Tynnwyd sylw at brif bwyntiau'r adroddiad isod;

  - Nodwyd fod cwrs y brif sianel fordwyo i'r harbwr wedi aros yn sefydlog trwy gydol tymor yr haf.
  - Adroddwyd bod dau 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' ar waith yn Harbwr Aberdyfi ar hyn o'r bryd.

- Nodwyd fod y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn Bwi Tramwyo newydd sydd wedi'i gynllunio i fod yn haws i'w ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw. Nodwyd bydd y bwi hwn o faint ac arddull gwahanol, a bydd ei berfformiad ym môr Aberdyfi yn cael ei fonitro'n agos. Hyderwyd bydd y model hwn o fwi yn addas, ar ôl ymgynghori a chynghorau eraill.
- Cadarnhawyd bod Dŵr Cymru bellach wedi trwsio'r gorchudd archwilio oedd mewn cyflwr gwael ar waelod y llithrfa ym Mae yr Eglwys, heb gost i'r gwasanaeth.
- Cyfeiriwyd at ddigwyddiadau sydd yn mynd ymlaen ger yr Harbwr yn Aberdyfi. Tynnwyd sylw at ymweliad yr Ŵyl Barcud yn Aberdyfi am y tro cyntaf a nodwyd bydd yr ŵyl yn cael ei ychwanegu i'r calendr digwyddiadau. Esboniwyd y gall digwyddiadau fod yn ffrwd incwm ychwanegol i'r harbwr hefyd. Nodwyd bod rhai digwyddiadau, megis Regata Cynghrair Sgwlio Clwb Rhwyfo ei ganslo oherwydd gwyntoedd cryfion.

Diolchwyd y staff am eu gwaith wrth gynnal Harbwr Aberdyfi a llongyfarchwyd y tîm am eu boddhad cwsmer uchel. Cydnabuwyd heriau'r gweithwyr yn enwedig yn nhymor yr Haf a gwerthfawrogwyd eu hymroddiad. Diolchwyd i Desmond George am ei waith a'i gyfraniad at y Pwyllgor dros y blynyddoedd. Dymunwyd yn dda iddo yn y dyfodol a dymunwyd yn dda i'w olynydd ar y Pwyllgor, Mr Ian Baylis, fydd yn cymryd drosodd erbyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2026.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 17fed Mawrth 2026.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am 11:45yb.

________________________________________

(Cadeirydd)

| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 17 Mawrth 2026 |
| **Awdur:** | Uwch Swyddog Harbwr |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth |

1 **CEFNDIR**

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion rheoli sy'n gysylltiedig â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. **ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH**

Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth.

**i) <u>Data Perfformiad</u>**

2.1 Caiff y data isod ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

| Mesur | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| Cytundebau Angori | | | |
| Porthmadog | 106 | 109 | 106 |
| Abermaw | 71 | 78 | 81 |
| Aberdyfi | 73 | 79 | 83 |

2.2 Mae'r ffigyrau a ddarparwyd yn parhau i fod yn gyson gyda'r rhai a rannwyd yng nghyfarfod mis Hydref, fodd bynnag, yn ystod cyfnod y gaeaf, mae swyddfa'r Harbwr wedi derbyn sawl ymholiad ynglŷn ag angorfeydd cwsmeriaid newydd yn Harbwr Aberdyfi. Mae hyn yn arwydd calonogol bod y niferoedd yn debygol o godi eto o gymharu â thymhorau blaenorol. Hoffai'r gwasanaeth ddiolch yn ddiffuant i staff yr harbwr am eu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid a'u proffesiynoldeb yn eu gwaith. Mae eu dealltwriaeth ac ymrwymiad yn allweddol wrth gynhyrchu'r adborth cadarnhaol iawn yr ydym yn parhau i'w dderbyn gan forwyr lleol a chychod sy'n ymweld.

Hefyd, hoffai'r Gwasanaeth Morwrol atgoffa pawb bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer ceisiadau angori a chofrestru cychod pŵer yn ail-agor ar 1 Ebrill. Mae ffioedd cofrestru

wedi'u newid yn unol â chwyddiant blynyddol, gweler isod y ffioedd a'r costau diweddaraf.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn casglu data ar foddhad cwsmeriaid / defnyddwyr yr harbwr:

| | **2023/4** | **2024/5** | **2025/6** |
|---|---|---|---|
| **Boddhad Cwsmer** | | | |
| Rhagorol | 40% | 60% | 68% |
| Da iawn | 30% | 24% | 24% |
| Boddhaol | 20% | 16% | 4% |
| Gwael | 10% | 0% | 2% |
| Gwael iawn | 0% | 0% | 0% |
| Anhysbys | 0% | 0% | 2% |

Mae'r ffigyrau a nodwyd yn gymharol â'r rhai yr adroddwyd arnynt yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref. Oherwydd y nifer isel o bobl dros gyfnod y gaeaf, rydym yn rhagweld dirywiad yn nifer yr ymatebion adborth sy'n cael eu cyflwyno drwy'r holiadur cod QR. Serch hynny, mae'r adborth a dderbyniwyd mewn gohebiaeth dros e-bost a thrafodaethau wyneb yn wyneb wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi'u croesawu.

Enghraifft isod o adborth wedi'i dderbyn gan gwsmeriaid:

*"Cyn i dymor arall gychwyn, hoffwn ddiolch yn fawr am eich holl gymorth wrth ein cadw ni a'n cychod yn ddiogel ac yn saff drwy gydol y tymor. Roedd eich gwaith yn achub cwch mawr y Saxdor y llynedd yn arwrol. Nid oes llawer o Harbwrfeistri a fyddai wedi ymdrechu'n ddi-bendraw i wneud hynny. Y math hwn o ymddygiad anhunanol yw'r union reswm eich bod yn cael eich parchu gymaint gan y rhai ohonom sydd wedi bod yn defnyddio ein cychod yn Aberdyfi ers nifer o flynyddoedd. Fel tad sydd â thair o ferched ifanc yn dechrau dysgu eu crefft o hwylio ar y dŵr, mae'n gysur mawr gwybod eich bod yn sicrhau bod rheolau'r harbwr yn cael eu cynnal a'u parchu."*

*"Wrth fy modd gyda'r aber a'ch cydweithrediad, arweinyddiaeth a stiwardiaeth. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr."*

Rydym yn annog sylwadau cadarnhaol ac adeiladol ar reolaeth yr Harbwr, gan eu bod yn ein helpu i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

**ii) <u>Diogelwch yr Harbwr</u>**

2.3 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd.

Yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref, cafodd yr aelodau eu cynghori, yn dilyn penodi Mr Owen Morgan yn Berson Dynodedig newydd ar gyfer Cyngor Gwynedd, y

byddai ef yn cynnal archwiliadau o'r harbyrau dan awdurdod yr adran Forwrol, sef harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Hafan Pwllheli.

Yn 2025, rhoddodd addasiadau i'r PMSC arweiniad fwy clir ac fe wnaeth hyn gryfhau'r gofynion ar gyfer rhanddeiliaid a sefydliadau yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r harbwr. Dyluniwyd y newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a systemau rheoli diogelwch morwrol sy'n gorgyffwrdd yn cyd-fynd â'i gilydd yn effeithiol. O ganlyniad, cyhoeddwyd ymarfer cydymffurfio cenedlaethol i'r holl harbyrau i gadarnhau eu bod yn cadw at godau unigol ac i sicrhau bod mesurau priodol yn eu lle i ymdrin ag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

Mae'r adran yn falch o gyhoeddi bod Mr Morgan wedi cwblhau'r archwiliad ym mis Chwefror. Yn dilyn adroddiad cadarnhaol, mae'r Gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gyflwyno ei Ddatganiad Cydymffurfio cyn diwedd mis Mawrth a chyhoeddi ei ddogfennaeth PMSC ar wefan Cyngor Gwynedd.

**Stormydd y Gaeaf**

Yn ystod gaeaf 2025/26, mae'r ardal unwaith eto wedi profi nifer gynyddol o stormydd, yn bennaf o gyfeiriad y de-ddwyrain. Yn ffodus, oherwydd gwaith paratoi a gwaith cynnal a chadw parhaus, doedd dim llawer o ddifrod nag aflonyddwch i harbwr Aberdyfi yn ystod y cyfnod hwn.

Ar hyn o bryd, mae nifer o Hysbysiadau i Forwyr yn eu lle. Fel rhan o'n dyletswydd statudol, mae'n rhaid i ni gynghori morwyr i lywio'n ofalus o fewn y sianel ac wrth agosáu at yr harbwr. Ar hyn o bryd, mae'r bwi Allanol (bwi'r Sianel Fordwyo) "Oddi ar ei Safle", ond mae hyn dal i fod yn safle siartiedig, ac mae swyddfa'r harbwr yn cynghori'r holl gychod i ddod yno o'r lleoliad hwn. Bydd yr holl Gymhorthion Modrwyo sydd "Oddi ar eu Safle" ar hyn o bryd yn cael eu hail-leoli cyn gynted â phosib, yn amodol ar y tywydd a môr diogel. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, bydd Hysbysiad i Forwyr yn cael ei gyhoeddi, a bydd yr wybodaeth hefyd yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata LARs Cymhorthion Mordwyo Lleol Tŷ'r Drindod. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn adroddiad yr Harbwrfeistr.

**iii)** **<u>Adnoddau a Chyllideb</u>**

Yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer Costau 2026/27

Mae crynodeb o'r gyllideb ar gyfer harbwr Aberdyfi wedi'i gynnwys isod:

| Cynnwys T.A.W | 2025/26 | 2026/27 | Including V.A.T |
|---|---|---|---|
| Trwydded angorfa blynyddol fesul medr, neu rhan o fedr + Tollau Harbwr. Pob Cwch | 49.44 | 51.42 | Mooring licence per metre per annum, or part of metre + Harbour Dues. All Craft |
| Tollau Harbwr y fedr – pob cwch | 8.66 | 9.01 | Harbour Dues per meter – all vessels |
| Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW-dim yn daladwy hyd yma) | 37.28 | 38.77 | Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt-not currently charged) |
| | | | |
| *Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod* | | | *Visiting Vessels – Daily or part of day* |
| Cwch Ymweld-Daliwr Angorfa Harbyrau Gwynedd | 15.00 | 16.00 | Visiting Vessels-Gwynedd Harbour Mooring Holders |
| Cwch Ymweld-Pob Cwch Pleser arall | 20.00 | 22.00 | Visiting Vessels-All other pleasure vessels |
| Cychod cario teithwyr y **fedr** + Tollau Harbwr | 43.28 | 45.01 | Passenger carrying vessels **per metre** + Harbour Dues per meter |
| | | | |
| **Pysgota/Siarter/Masnachol y flwyddyn + Tollau Harbwr fesul medr y flwyddyn** | 43.28 | 45.01 | **Fishing/Charter/Commercial per meter + Harbour Dues per meter per annum** |
| Cychod masnachol yn ymweld a'r harbwr y dydd neu rhan o'r dydd | 92.96 | 96.68 | Commercial vessels visiting per day or part of day |
| | | | |
| Ffi storio trelar ar ardal y harbwr | 300.00 | 312.00 | Fee storage trailer on the Harbour area |
| | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | Rheol/Rule 1/18 | Rheol/Rule 1/18 | Cancellation of mooring application. Discretionary. |

| Ffi Cofrestru Blynyddol | 2025/26 | 2026/27 | Annual Registration Fee |
|---|---|---|---|
| Cofrestru Blynyddol | £75.00 | £80.00 | Annual Registration |
| **Ffi Lansio Blynyddol** - Cynnwys Ffi Cofrestru Blynyddol | | | **Yearly Launching Fee** - Inclusive of Annual Registration Fee |
| Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) | £190.00 | £196.50 | Annual Launching Permits (1 April – 31 March) |
| **Ffi Lansio Dyddiol** | | | **Daily Launching Fees** |
| Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol | £23.00 | £24.00 | Daily launch – General Slipways/Beaches |
| Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn ogystal â £4 ychwanegol ar gyfer parcio) | £27.00 | £28.15 | Daily launch – Morfa Bychan Beach (plus an additional £4 required for Parking) |
| **Ffi Trosglwyddo / Ailddodiad** | | | **Transfer / Replacement Fee** |
| Ceisiadau drwy'r post yn unig i Morwrol@gwynedd.llyw.cymru | £75.00 | £80.00 | Postal application only to Morwrol@gwynedd.llyw.cymru |
| **Cychod llai na 10 HP a Cychod Hwylio** | | | **Vessels under 10 HP and Sail Boats** |
| Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig. Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio. Dim ffi lansio yn daladwy. | £42.00 | £45.00 | Annual Registration – In Person Application Only. At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection. No launching fees charged for small vessel. |

| ABERDOVEY HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2025 to 31 March 2026 - November 2025 Review | | |
|---|---|---|---|
| | BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/25 TO 31/3/26 | INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/25 TO 31/3/26 | OVER (UNDER) |
| Employees | 79,869 | 78,689 | (1,179) |
| Buildings | 25,840 | 26,994 | 1,154 |
| Transport | 760 | 830 | 70 |
| Supplies & Services | 8,490 | 17,504 | 9,014 |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 0 | 0 |
| **Total Expenditure** | **114,959** | **124,018** | **9,059** |
| Income | (50,010) | (62,566) | (12,556) |
| Contribution from Reserves Towa | 0 | 0 | 0 |
| **Total Net** | **64,949** | **61,452** | **(3,497)** |

2.4 Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref, gofynnodd Aelodau i'r Gwasanaeth ddarparu dadansoddiad o'r incwm ar gyfer yr harbwr. Gweler y tabl isod ar gyfer hyn.

| | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|
| TENANTIAD-AD TRYDAN/DWR | -£10,073 | |
| RHODDION | -£650 | |
| GWERTHU-PETROL/DIESEL | -£111 | |
| ANGORFEYDD PARHAOL | £0 | |
| ANGORFEYDD I YMWELWYR | -£23,509 | |
| LANSIO CWCH POWER | -£37 | |
| LANSIO JET SKI | -£153 | |
| INCWM ARALL (CYNNWYS TAW) | -£2,750 | |
| RHENTI - TIR/ADEILADAU/CYFF. | -£15,340 | |
| | **-£52,622** | **-£62,566** |

**iv)** **Materion Allweddol Eraill**

- **Swyddfa'r Harbwrfeistr**
  Mae pensaer wedi'i gomisiynu i baratoi cynlluniau manwl ar gyfer adeilad newydd arfaethedig Swyddfa'r Harbwr Aberdyfi. Bydd y cynlluniau hyn yn cefnogi cyflwyno cais cynllunio llawn ac yn sicrhau bod y dyluniad yn cwrdd â'r holl ofynion cynllunio a rheoleiddiol perthnasol.

- **Gwelliannau i'r lanfa bren**
  Derbyniwyd y tendr ac mae'r gwaith i'r Lanfa bellach yn mynd rhagddo. Mae'r prosiect yn ymwneud ag adnewyddu neu ail-ddefnyddio'r byrddau pren cyfredol ac amnewid y stribedi ymylol, fel bo'r angen. Gwneir pob ymdrech i gwblhau'r gwaith cyn gynted â phosib, tra'n lleihau unrhyw aflonyddwch. Ymddiheurwn am unrhyw anhwylustod y gall hyn ei achosi ac rydym yn ffyddiog y bydd y Pwyllgor yn cytuno bod y gwaith hwn yn angenrheidiol i gefnogi, datblygu a gwella cyfleusterau harbwr Aberdyfi yn barhaus.

- **Bwi Sianel Fordwyo**
  Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae'r Bwi Allanol, sydd newydd ei gynhyrchu, ar ei ffordd ac mae disgwyl iddo gyrraedd yr harbwr yn fuan. Edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r bwi ar y safle. Er ei fod yn sylweddol llai na'r bwi dur mawr blaenorol, bydd yn haws ei reoli ac yn fwy diogel i gontractwyr a staff ymdrin ag ef. Bydd hyn hefyd yn caniatáu defnyddio offer mordwyo ysgafnach a llai, gan wella diogelwch ac effeithlonrwydd gweithredol cyffredinol.

**3. ARGYMHELLION**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| **Dyddiad:** | 17 Mawrth 2026 |
| **Awdur:** | Yr Harbwrfeistr, William Stockford |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned, |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Gweithredol |

**1. CEFNDIR**

1.3 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.4 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

2. **ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL**

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod o safbwynt perfformiad y Gwasanaeth.

**a) <u>Materion Mordwyo</u>**

Oherwydd gofynion cynnal a chadw parhaus, yn ogystal ag amodau'r môr a thywydd garw, ar hyn o bryd, mae pum Hysbysiad i Forwyr mewn grym yn ymwneud â'r mynediad at afon Dyfi.

Argymhellir yn gryf i forwyr gysylltu â Swyddfa'r Harbwr a chyfeirio at yr Hysbysiad Lleol i Forwyr diweddaraf ar gyfer gwybodaeth gyfredol ynglŷn â mordwyo i Harbwr Aberdyfi.

Mae'r Cymhorthion Mordwyo canlynol "Oddi ar eu Safle" ar hyn o bryd:

Bwi Allanol (Bwi'r Sianel Fordwyo)
Marc llaw Starboard rhif 1
Marc llaw Port rhif 2
Marc llaw Starboard rhif 3
Amddiffyniad meini marc llaw South Stanchion Starboard rhif 1, Tywyn

Gellir gweld rhagor o fanylion ar wefan Cyngor Gwynedd.

Fel a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref, cafodd Bwi'r Sianel Fordwyo Aberdyfi ei olchi i'r lan yn ystod storm. Ers hynny, rydym wedi gwneud archeb ar gyfer Bwi Allanol sydd newydd ei gynhyrchu, ac mae disgwyl iddo gyrraedd yn fuan. Byddwn yn ei ddefnyddio cyn gynted â phosib, yn amodol ar argaeledd contractwyr ac amodau'r môr a thywydd ffafriol, ynghyd ag ail-leoli Cymhorthion Mordwyo eraill.

Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa morwyr bod y Bwi Allanol yn dal i fod yn safle siartiedig yn:

52°32.000’N 004°05.550W

Gofynnir i'r holl forwyr fordwyo gan ddefnyddio'r lleoliad hwn tra bo'r Bwi Allanol dal "Oddi ar ei Safle" i sicrhau llwybr diogel i fynd drwyddo.

**b) Mae materion penodol wedi codi**

2.2 Mae'r Gwasanaeth Morwrol wedi cefnogi'r Harbwrfeistr wrth ddatblygu ei ddatblygiad proffesiynol yn y Gwasanaeth, wrth hwyluso cyfle i forio ar draws Cefnfor yr Iwerydd. Mae'r profiad hwn wedi rhoi arbenigedd a gwybodaeth hwylio ar y môr a llywio gwerthfawr, a bydd hyn yn cael ei rannu gyda chydweithwyr ac, yn ei dro, o fantais i forwyr lleol a chychod sy'n ymweld sydd angen cyngor ac arweiniad.

2.3 Trefnwyd i'r gwaith adnewyddu ar y Lanfa ddechrau yn fuan ym mis Mawrth, gan ganolbwyntio ar adnewyddu'r byrddau decin pren oedd yn angenrheidiol. Ble fo'n bosib, bydd y byrddau decin sy'n dal i fod mewn cyflwr da yn cael eu hail-ddefnyddio i helpu lleihau costau, gyda byrddau amnewid yn cael eu gosod ble fo angen. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, bydd rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu hysbysu o'r datblygiadau a’r amserlenni. Gwneir pob ymdrech i gwblhau'r gwaith gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosib i ddefnyddwyr yr harbwr.

**c) Cynnal a chadw**

2.4 Yn dilyn buddsoddiad o £4,500 ar gyfer bowser a golchydd pwysedd uchel newydd, mae gwaith wedi'i wneud i lanhau holl arwynebau'r harbwr i gael gwared ar dyfiant algâu a chwyn, gan wella diogelwch a golwg yr harbwr.

2.5 Mae gwaith adnewyddu sylweddol wedi'i gwblhau ar drelar cwch gwaith (GP4) yr harbwr, gan gynnwys gosod olwynion, echel a 'hitch' newydd.

2.6 Trosglwyddwyd Cwch Patrôl yr Harbwr i Borthmadog er mwyn cynnal y gwaith arolygu Cod 3 Cwch Gwaith a gwasanaeth peiriant llawn. Mae'r cwch bellach wedi dychwelyd i Aberdyfi ac yn barod ar gyfer y tymor nesaf.

2.7 Cynhaliwyd gwaith cynhwysfawr ar Gymhorthydd Mordwyo Rhif 2, gan gynnwys tynnu, ail-adeiladu a thrwsio'r gwaith dur a wnaed gan Wasanaethau Morol Aberdyfi. Hefyd, fe wnaethpwyd gwaith i drwsio'r gwaith dur ar Gymhorthydd Mordwyo Rhif 7.

2.8 Mae cylchoedd clymu dur gloyw newydd wedi'u creu ar gyfer y ddau set o risiau ar y cei a byddant yn cael eu gosod cyn y Pasg.

2.9 Mae gwaith cynnal a chadw yn parhau ar y compownd, ac mae'r gwasanaeth yn trefnu sgip i gael gwared ar y malurion a'r deunyddiau sydd wedi cronni yno.

2.10 Roedd gwaith adweithiol yn cynnwys symud a chladdu carcasau ar hyd y blaendraeth. Mae'r gwasanaeth yn gofyn i unrhyw un sy'n adrodd am garcasau gynnwys gwybodaeth fanwl-gywir am y lleoliad, fel What3Words neu gyfesurynnau Cyfeirnod y Grid Cenedlaethol, i alluogi ymateb prydlon.

2.11 Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cerbyd 4x4 newydd i gefnogi'r staff morwrol. Bydd hyn yn caniatáu i swyddogion gyflawni eu dyletswyddau yn ddiogel ac yn effeithiol ar draws yr Harbwr ac ardaloedd y traeth.

**d) <u>Digwyddiadau</u>**

3.0 Mae’r hyfforddiant yng Nghlwb Hwylio Dyfi wedi parhau drwy gydol y gaeaf gyda llawer o ymroddiad, a llawer o aelodau yn cwblhau tystysgrifau Cychod Pŵer Lefel 2 yn llwyddiannus. Cafodd Kate a Dan Stevens, aelodau o'r clwb, eu hadnabod am eu cyfraniad eithriadol ac fe wnaethon nhw ennill 'Gwobr Gwirfoddolwyr y Flwyddyn' yng Ngwobrau Chwaraeon Gwynedd. Mae'r gwasanaeth yn edrych ymlaen i'w croesawu yn ôl ar y dŵr gydag aelodau iau y clwb yr haf hwn.

3.1 Digwyddiadau sydd wedi'u cadarnhau (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad):
04/04/26 Hanner Marathon Dyfi X
21/06/26 Ras Nofio 13km Aberdyfi
13/09/26 Aquathlon Dyfi 26km

Ar y dyddiad cyhoeddi, nid oes unrhyw gynigion regata neu ddigwyddiad wedi'u cyflwyno gan Glwb Rhwyfo Aberdyfi.

Mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau a rasys yng Nghlwb Hwylio Dyfi wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn dymuno tymor llwyddiannus i'r holl drefnwyr digwyddiadau ac yn gobeithio am dywydd ffafriol. Cydnabyddir bod sawl digwyddiad rhwyfo a hwylio wedi gorfod cael eu canslo y llynedd oherwydd gwyntoedd cryfion. Er bod hyn yn siomedig, mae'r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi gweithdrefnau gweithredu diogel o fewn yr Harbwr i sicrhau bod modd cynnal yr holl ddigwyddiadau yn ddiogel.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.